# Ffioedd rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 9 Mai 2017

## Adran 1

# Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae Ofcom yn rheoleiddio gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn y DU o dan reolau yn Rhan 4A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"). Mae wedi bod yn gyfrifol am hyn ers ysgwyddo'r unig ddyletswyddau rheoleiddio dros gynnwys golygyddol ar wasanaethau rhaglenni ar-alwad gan yr Awdurdod Teledu Ar-alwad ar 1 Ionawr 2016. Ers hynny, ac wrth ystyried bod arian dros ben yr Awdurdod Teledu Ar-alwad a drosglwyddwyd i Ofcom wedi talu am gostau gwasanaethau rhaglenni ar-alwad arfaethedig 2016/17 Ofcom, nid yw Ofcom wedi codi unrhyw ffioedd am gostau cyflawni ei gyfrifoldebau rheoleiddio, ond mae'n bwriadu gwneud hynny ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.

1.2 Er mwyn cyflwyno trefn ffioedd briodol, roedd Ofcom wedi edrych ar gost debygol y cyfrifoldebau rheoleiddio hyn a ffyrdd o godi ffioedd i gynnal ac i hybu gwasanaethau rhaglenni ar-alwad mewn amgylchedd digidol sy'n newid yn gyflym.

1.3 Ymgynghorodd Ofcom ynghylch pedwar opsiwn strwythur ffioedd gwahanol, gan gynnwys opsiwn a oedd yn cael ei argymell, ac ystyriodd ymatebion rhanddeiliaid i'r rhain. O ganlyniad, rydyn ni nawr wedi penderfynu ar drefn ffioedd newydd a byddwn yn symud ymlaen i'w chyflwyno.

1.4 Ni fydd darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad llai (sydd â throsiant blynyddol cyffredinol o dan £10 miliwn) yn talu unrhyw ffioedd. Bydd y costau'n cael eu rhannu rhwng y darparwyr mwyaf ar sail fesul haen, sy'n gysylltiedig â'u trosiant. Caiff hyn ei nodi yn y tabl isod.

| Categori | Band Trosiant | Ffi (amcan) |
|---|---|---|
| C | dan £10m | £0 |
| B | >£10m ond llai na £50m | £2,073 |
| A | >£50m | £4,146 |

1.5 Yn y ddogfen hon, rydyn ni'n cadarnhau ein trefn ffioedd rheoleiddio newydd o dan adran 368NA o'r Ddeddf a'r ffioedd a fydd yn berthnasol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.

1.6 Gan ystyried bod y sector gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn dal i ddatblygu, gyda nifer a mathau'r darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn newid dros amser, bydd Ofcom yn adolygu'r drefn ffioedd hon yn ôl y galw.